

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL YNNI

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Ynni sy'n ymwneud â sefydlu safonau perfformiad ynghylch allyriadau i osod terfynau ar faint o garbon deuocsid y gall gorsaf bŵer tanwydd ffosil newydd (h.y. un sy'n cael ei phweru gan lo, olew neu nwy "naturiol") ei ollwng yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad Cenedlaethol"). Caiff y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth parthed Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sydd ag effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.
3. Cyflwynwyd y Bil Ynni (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Tachwedd 2012. Ceir copi o'r Bil yn: <http://services.parliament.uk/bills/2012-13/energy.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Prif ddiben y Bil yw sicrhau bod gan y DU gyflenwad sicr a fforddiadwy o ynni. Amlinella'r Bil y nodau a'r darpariaethau allweddol canlynol:

Ceir chwe rhan i'r Bil:

- **Rhan 1: Diwygio'r Farchnad Drydan.** Diwygio'r farchnad drydan er mwyn sicrhau bod y galw am drydan yn parhau i gael ei fodloni dros y degawdau nesaf. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau ynghylch contractau ar gyfer buddsoddi a chontractau gwahaniaeth, y farchnad gapasiti, hylifedd a mynediad i'r farchnad, trefniadau sefydliadol mewn perthynas â chyflenwi'r cynlluniau hyn, trosglwyddiad i gynllun prynu

tystysgrif ar gyfer gwaith cynhyrchu a gefnogir gan y rhwymedigaeth ynghylch ynni adewyddadwy, ynghyd â safon perfformiad ynghylch allyriadau ar gyfer safleoedd tanwydd ffosil.

- **Rhan 2: Rheoleiddio Niwclear.** Yn sefydlu'r Swyddfa ar gyfer Rheoleiddio Niwclear gyda phwerau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoleiddio diogelwch y genhedlaeth nesaf o safleoedd pŵer niwclear, a hefyd ar gyfer ymdrin â chludo deunyddiau ymbelydrol, diogelwch niwclear a mesurau diogelwch yn fwy cyffredinol.
- **Rhan 3: Piblinell a System Storio'r Llywodraeth (GPSS).** Mae mesurau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i werthu Piblinell a System Storio'r Llywodraeth yn cynnwys darparu ar gyfer hawliau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â hi, cofrestru'r hawliau hynny, iawndal mewn perthynas â chreu hawliau newydd neu eu harfer, ac ar gyfer trosglwyddo perchenogaeth, yn ogystal â phwerau ar gyfer diddymu'r Asiantaeth Olew a Phiblinellau drwy orchymyn.
- **Rhan 4: Datganiad Polisi a Strategaeth.** Mesurau sy'n berthnasol i'r Awdurdod ac i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn creu sicrwydd rheoleiddiol drwy geisio sicrhau bod y Llywodraeth a'r swyddfa reoleiddio yn cyd-fynd â'i gilydd ar lefel strategol.
- **Rhan 5: Amrywiol:**
 - **Unioni camweddau defnyddwyr:** Mae'r cymal hwn a'r Atodlen gysylltiedig yn cyflwyno pŵer gorfodi newydd ar gyfer yr Awdurdod er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ynni sy'n torri amodau trwydded neu ofynion rheoleiddiol eraill perthnasol unioni camweddau defnyddwyr sy'n wynebu colled, difrod neu anghyfleustra yn ei sgil.
 - **Trawsyrru ar y môr:** Mesur sy'n darparu eithriad i'r gwaharddiad ar drawsyrru trydan heb drwydded ar gyfer person sy'n ymwneud â thrawsyrru ar y môr yn ystod cyfnod comisiynu o dan rai amgylchiadau.
 - **Datgomisiynu niwclear:** Mesur sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i adennill y costau sydd ynghlwm ag ystyried gwahanol gytundebau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â datgomisiynu gosodiadau niwclear a gwaredu gwastraff peryglus.
- **Rhan 6: Terfynol.** Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi gwariant mewn perthynas â diwygio'r farchnad drydan.

Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Y darpariaethau perthnasol a gynhwysir yn y Bil yw:

Cymal 38: Dyletswydd i beidio â mynd y tu hwnt i'r terfyn allyriadau blynyddol ynghylch carbon deuocsid - Yn rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tanwydd ffosil i beidio â mynd y tu hwnt i derfyn allyriadau ynghylch carbon deuocsid mewn unrhyw flwyddyn. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch dehongli'r ddyletswydd a osodir ar y gweithredwyr.

Cymal 39: Atal etc y terfyn allyriadau o dan amgylchiadau eithriadol - Mae'r adran hon yn caniatáu ar gyfer atal y terfyn allyriadau a nodir o dan amgylchiadau eithriadol. Diffinnir yr amgylchiadau hyn o fewn yr adran hon. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno cyfarwyddyd.

Cymal 40: Monitro a gorfodi, - Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer monitro, cydymffurfio a gorfodi'r ddyletswydd ynghylch y terfyn allyriadau. Mae'r darpariaethau ar gyfer Gweinidogion Cymru o fewn yr adran hon yn cyfateb i'r darpariaethau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon.

Atodlen 5: Dyletswydd Terfyn Allyriadau: Monitro a Gorfodi.

Mae'r Atodlen hon yn nodi'r materion y gellid eu cynnwys o fewn rheoliadau gorfodi mewn perthynas â monitro a gorfodi terfyn allyriadau.

Nod y darpariaethau hyn yw safoni ar draws y DU lefel yr allyriadau Carbon Deuocsid a ganiateir ar gyfer cynhyrchu trydan a sicrhau safon amgylcheddol gyffredinol ar gyfer y DU er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â thargedau ynghylch y Newid yn yr Hinsawdd.

O'r herwydd cred Llywodraeth Cymru fod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â phwnc yr Amgylchedd ym mharagraff 6, ac yn benodol diogelwch amgylcheddol sy'n cynnwys llygredd.

Manteision defnyddio'r Bil hwn

6. Cred Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan ei fod yn cynrychioli'r ddeddfwriaeth fwyaf priodol a chymesur er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru ac er mwyn cydnabod pwerau Gweinidogion Cymru, gan hefyd sicrhau cysondeb o ran allyriadau sy'n deillio o gynhyrchu trydan ar draws y DU.
7. Mae'r mesurau ynghylch y Safon Perfformiad Allyriadau sydd i'w cymhwyso yng Nghymru yn adlewyrchu'r cytundeb y mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi cytuno arno â Gweinidogion Cymru. Yn ddarostyngedig i gytundeb Gweinidogion Cymru, bydd yn sicrhau cydraddoldeb llwyr â Gweinidogion Cymru ac â Gogledd Iwerddon sy'n gweithredu ei Farchnad Drydan ei hun.

Goblygiadau Ariannol

8. Nis rhagwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn deillio o weithredu darpariaethau perthnasol y Bil Ynni na fydd modd eu cynnwys o fewn rhwymedigaethau presennol.

John Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Rhagfyr 2012